# Stay in Snowdonia

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust




Craflwyn, Beddgelert


Fron Dirion, Dolgellau


Braich Melyn, Dolgellau

## Croeso i Eryri

Welcome to Snowdonia, a place of dramatic mountains and lakes, tumbling waterfalls, rare flora and fauna… and the highest cup of tea in Wales! Snowdonia is a working landscape where some of Wales' finest produce is traditionally raised. You can climb, walk, kayak and ride here. Or simply enjoy those breathtaking views from our range of holiday accommodation…





## Craflwyn

Beddgelert, LL55 4NG

**Sleeps up to 26. House: 14 Bunkhouse: 12**

Hall: **From £440 per night** Bunkhouse: **From £175 per week night or £390 per weekend**

This beautifully renovated gentleman's house in the shadow of Snowdon is the perfect place to get together with family or friends or even as the romantic setting for your wedding. The comfortable bunkhouse provides additional accommodation nearby or can be booked alone.

*For more information: ✆ 01766 510120*
*or visit www.craflwyn.org*



## Hafod y Llan campsite

Nantgwynant, Beddgelert, LL55 4NQ

Grid reference: **OS map 115:SH620510**

Open: **26 March - 31 October**

Prices per night: **Adult £6.50 Children £3. Campfires £6.50, Showers 50p**

This tent-only site, four miles from Beddgelert, on a working farm next to a mountain stream, has basic facilities but fabulous views. It is a great starting point for those climbing Snowdon.

*No booking required except for single sex groups and those of 4 or more. ✆ 01766 510129 Email: alison.ellis@nationaltrust.org.uk*

## Coming soon: Hafod y Llan chalet

Once accommodation for shepherds, this chalet is currently being refurbished to offer the perfect place to stay, whatever the weather.

*For more information call ✆ 01766 510129*



## Hendre Isaf

Pentrefoelas,
Betws-y-Coed, LL24 0HF

Grid reference: **OS map 116: SH855511**

**Sleeps up to 17. Groups only**

Groups will love this 400 year old, fully equipped, converted farm building on the 7,300 hectare Ysbyty estate. What's more you can stay here for free in return for conservation work or make a donation.

*For more inforamtion call ✆ 01690 713321*

## Cottages

For more details or to book any of the cottages below, call National Trust Holiday Cottages on:

✆ 0844 8002070 or visit
www.nationaltrustcottages.co.uk

Short breaks also available.



## Dyffryn Mymbyr Farmhouse

Capel Curig, Betws-y-Coed, LL24 0ES

**Sleeps 8+ cot**

Weekly from: **£658 to £1463**

The house and farm are the setting of the post war bestseller 'I bought a Mountain'- a classic tale of life on an upland Welsh farm between the two world wars by Thomas Firbank.'



## Dyffryn Mymbyr Cottage

Capel Curig, Betws-y-Coed, LL24 0ES

**Sleeps 4 + cot**

Weekly from: **£435 to £1029**

Like the farmhouse, the beautifully refurbished 16th century cottage, on this working farm, has unsurpassed views of the Snowdon range.



## Bwthyn Mai

Craflwyn, Beddgelert, LL55 4NG

**Sleeps 3 + cot**

Weekly from: **£354 to £893**

Set in the splendid 200 acre Craflwyn estate at Snowdon's foot, this snug little cottage is ideal for a romantic getaway - or a walking weekend.



## Foel Gopyn

Padog, nr Betws-y-Coed, LL24 0NF

**Sleeps 4**

Weekly from: **£329 to £732**

Get away from it all – literally in this former gamekeeper's house on the Ysbyty Ifan estate. It's 1,125ft above sea level and a mile from the village… 450 ft below!



## Gwernouau Cottage

Padog, nr Betws-y-Coed, LL24 0PG

**Sleeps 5 +cot**

Weekly from: **£402 to £893**

Quiet and cosy, this beamed 18th century cottage is just two miles away from the pretty village of Ysbyty Ifan and part of a working farm.



## 2 & 3 Siloam Cottage

Capel Garmon, Conwy, LL24 0LY

**Sleep 4+ cot in each**

Weekly from: **£329 to £732 per cottage**

These whitewashed, neighbouring cottages offer a glimpse of traditional rural village life. Former guests include Sir Edmund Hillary so you may want to bring your boots and follow in his footsteps. Snowdon's mountains, where his team trained for the 1953 expedition, are just a few minutes' drive away and can be seen from the cottages.



## Braich Melyn

nr Dolgellau, Gwynedd, SY20 9LX

**Sleeps 4+cot**

Weekly from: **£329 to £732**

Leave the hustle and bustle of 21st century life behind and snuggle up at Braich Melyn, a lovely 17th century stone cottage on a working farm. There's no TV reception (although we have provided a TV and DVD player) but we can promise endless views instead.



## Fron Dirion

nr Dolgellau, Gwynedd, SY20 9LX

**Sleeps 4+ cot**

Weekly from: **£402 to £893**

Anglers have traditionally used this 18th century cottage and all visitors are charmed by its superb views. It's also just ten minutes walk away from Braich Melyn (above).



## Nant Las

nr Dolgellau, Gwynedd, LL40 2HW

**Sleeps 2**

Weekly from: **£329 to £788**

This romantic woodland hideaway was built as a 19th century observatory. Bring your own telescope to watch the stars and the wonderful wildlife.



## Egryn

Llanaber, Barmouth LL43 2BZ

**Sleeps 9+ cot**

Weekly from: **£794 to £2268**

Try medieval living as well as life in the 17th century and Victorian times in this fascinating award-winning house restored to reflect three key periods of its history.

# Gwyliau yn Eryri

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust




Craflwyn, Beddgelert


Fron Dirion, Dolgellau


Braich Melyn, Dolgellau

## Croeso i Eryri

Yma yn Eryri mae mynyddoedd a llynnoedd godidog, rhaeadrau byrlymus, blodau a chreaduriaid prin… a phaned o de uchaf Cymru! Dyma dirlun byw a gweithgar lle cynhyrchir rhywfaint o gynnyrch gorau Cymru yn y dull traddodiadol. Gallwch ddringo, cerdded, caiacio neu ferlota yma, neu dewch i fwynhau'r golygfeydd anhygoel o'n hystod o lety gwyliau…





## Craflwyn

Beddgelert, LL55 4NG
**Lle i hyd at 26. Tŷ: 14 Byncws: 12**
Neuadd: **O £440 y noson,** Byncws: **O £175 y noson yn yr wythnos neu £390 am benwythnos**

Mae'r tŷ braf hwn wrth droed Yr Wyddfa, a fu'n gartref i deulu bonheddig ar un pryd, wedi ei adfer yn hyfryd, ac yn fan delfrydol i ddod ynghyd gyda'ch ffrindiau neu deulu neu hyd yn oed fel lleoliad rhamantus ar gyfer eich priodas. Mae'r byncws cyfforddus yn darparu llety ychwanegol gerllaw neu gallwch ei archebu ar ei ben ei hun.

*Am ragor o wybodaeth: 01766 510120*
*neu ewch i www.craflwyn.org*



## Gwersyll Hafod y Llan

Nantgwynant, Beddgelert, LL55 4NQ
Cyfeirnod grid: **Map AO 115: SH620510** Ar agor: **26 Mawrth - 31 Hydref** Prisiau fesul noson: **Oedolion £6.50 Plant £3. Tân coed £6.50, Cawodydd 50c**

Mae'r safle yma, bedair milltir o Feddgelert, ar gyfer pebyll yn unig. Fe'i lleolir ar fferm weithredol ar lannau nant fynyddig ac mae yma gyfleusterau sylfaenol. O'r safle ceir golygfeydd gwych, ac mae'n fan cychwyn da i bobl sy'n dymuno dringo'r Wyddfa.

*Dim angen archebu lle heblaw grwpiau un rhyw a grwpiau sy'n cynnwys pedwar neu fwy. 01766 510129*
*E-bost: alison.ellis@nationaltrust.org.uk*

## Ar gael yn fuan: Siale Hafod y Llan

Unwaith yn lety i fugeiliaid ar y fferm, mae bellach yn cael ei adnewyddu i gynnig y lle delfrydol i aros, beth bynnag fo'r tywydd.

*Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01766 510 120*



## Hendre Isaf

Pentrefoelas, Betws-y-Coed, LL24 0HF
Cyfeirnod grid: **Map AO 116: SH855511**
**Lle i hyd at 17. Grwpiau'n unig**

Bydd grwpiau wrth eu bodd gyda'r adeilad fferm 400 mlwydd oed hwn sydd wedi ei adfer ac sy'n cynnwys pob darn o offer angenrheidiol, ar stad 7,300 hectar Ysbyty. Gallwch aros yma am ddim wrth wneud gwaith cadwraeth neu wrth wneud cyfraniad.

*Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle ffoniwch 01690 713321*

## Bythynnod

Am ragor o fanylion neu i archebu unrhyw un o'r bythynnod isod, ffoniwch fythynnod gwyliau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar

0844 8002070 neu ewch i

www.nationaltrustcottages.co.uk

Gwyliau byr hefyd ar gael



## Ffermdy Dyffryn Mymbyr

Capel Curig, Betws-y-Coed, LL24 0ES
**Lle i 8+ cot baban**
Yn wythnosol o: **£658 i £1463**

Y tŷ a'r fferm yw'r lleoliad ar gyfer y llyfr poblogaidd 'I bought a Mountain' gan Thomas Firbank. Fe'i gyhoeddwyd ar ôl y rhyfel ac mae'n olrain hanes bywyd ar fferm fynyddig Gymreig rhwng y ddau ryfel byd.



## Bwthyn Dyffryn Mymbyr

Capel Curig, Betws-y-Coed, LL24 0ES
**Lle i 4 + cot baban**
Yn wythnosol o: **£435 i £1029**

Fel y ffermdy, ceir golygfeydd hyfryd o gribau Eryri o'r bwthyn hwn o'r 16eg ganrif a adferwyd yn hardd.



## Bwthyn Mai

Craflwyn, Beddgelert, LL55 4NG
**Lle i 3 + cot baban**
Yn wythnosol o: **£354 i £893**

Mae'r bwthyn bach clyd hwn, a saif ar stad 200 erw bendigedig Craflwyn wrth droed Yr Wyddfa, yn ddelfrydol ar gyfer gwyliau rhamantus - neu benwythnos o gerdded.



## Foel Gopyn

Padog, ger Betws-y-Coed, LL24 0NF
**Lle i 4**
Yn wythnosol o: **£329 i £732**

Lle i enaid gael heddwch – yn llythrennol yn yr hen gartref hwn i gipar ar stad Ysbyty Ifan. Mae'n 1,125 troedfedd uwchben lefel y môr ac yn filltir o'r pentref… 450 o droedfeddi'n is!



## Bwthyn Gwernouau

Padog, ger Betws-y-Coed, LL24 0PG
**Lle i 5 + cot baban**
Yn wythnosol o: **£402 i £893**

Yn heddychlon ac yn glyd, saif y bwthyn hwn gyda'i drawstiau derw ddwy filltir o bentref tlws Ysbyty Ifan ac mae'n rhan o fferm weithredol.



## 2 a 3 Bwthyn Siloam

Capel Garmon, Conwy, LL24 0LY
**Lle i 4 + cot baban yn y ddau**
Yn wythnosol o: **£329 i £732 am bob bwthyn**

Mae'r bythynnod gwyngalchog yma sydd y drws nesaf i'w gilydd yn cynnig cipolwg ar fywyd traddodiadol pentref gwledig. Ymysg y gwesteion blaenorol mae Syr Edmund Hillary felly mae'n bosibl y byddwch yn dewis dod â'ch esgidiau cerdded er mwyn dilyn ôl ei draed. Mae mynyddoedd Eryri, lle bu ei dîm yn hyfforddi ar gyfer taith 1953, i'w gweld o'r bythynnod a gellir eu cyrraedd mewn ychydig funudau'n unig gyda char.



## Braich Melyn

Ger Dolgellau, Gwynedd, SY20 9LX
**Lle i 4 + cot baban**
Yn wythnosol o: **£329 i £732**

Gadewch brysurdeb bywyd yr 21ain ganrif wrth ddianc i Fraich Melyn, bwthyn cerrig hardd o'r 17eg ganrif a saif ar fferm weithredol. Nid oes derbyniad teledu (er ein bod wedi darparu teledu gyda chwaraewr DVD) ond fe allwn addo golygfeydd diddiwedd.



## Fron Dirion

Ger Dolgellau, Gwynedd, SY20 9LX
**Lle i 4 + cot baban**
Yn wythnosol o: **£402 i £893**

Yn draddodiadol, defnyddid y bwthyn hwn o'r 18fed ganrif gan bysgotwyr ac mae pawb sy'n dod yma wrth eu bodd gyda'r golygfeydd gwych. Nid yw ond deng munud o Fraich Melyn (uchod) ar droed.



## Nant Las

Ger Dolgellau, Gwynedd, LL40 2HW
**Lle i 2**
Yn wythnosol o: **£329 i £788**

Adeiladwyd y llety rhamantus hwn yn y goedlan fel arsyllfa yn yr 19eg ganrif. Dewch â'ch telesgop eich hun i wylio'r sêr a'r bywyd gwyllt rhyfeddol.



## Egryn

Llanaber, Barmouth LL43 2BZ
**Lle i 9 + cot baban**
Yn wythnosol o: **£794 i £2268**

Rhowch gynnig ar fyw yn y canoloesoedd yn ogystal â phrofi bywyd yn yr 17eg ganrif ac Oes Victoria yn y tŷ hwn a adferwyd i adlewyrchu tri chyfnod allweddol yn ei hanes, ac sydd wedi derbyn gwobr am safon y gwaith adfer.